# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 19.07.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Lesley Day, Elwyn Edwards, Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams; Y Cynghorydd Huw Edwards (aelod ex-officio).

**Hefyd yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer yr eitemau craffu:-**

Eitem 6 – Strategaeth Gymunedol

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Arweinydd y Cyngor)
Swyddog Cefnogol – Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol)

Eitem 7 – Strategaeth Arbedion

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)
Swyddog Cefnogol – Dilwyn O.Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Evans, Gweno Glyn ac Eryl Jones-Williams.

**1. CROESO**

Croesawyd y Cynghorydd Huw Edwards i'r cyfarfod yn dilyn ei anhwylder diweddar.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2012 fel rhai cywir.

Eglurodd y Cadeirydd mai'r bwriad, o dan y drefn newydd, fyddai llunio cofnodion cryno o'r cyfarfodydd, ond bod modd ail-ymweld â'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn.

**4. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL**

Cyflwynwyd – y fersiwn ddiweddaraf o raglen waith y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cadw eitem 7 (Balans rhwng gwasanaethau gwledig a threfol – costau cudd) ar raglen waith y pwyllgor hwn a thrafod y manylder yn y Cyfarfod Paratoi nesaf.**
**(b) Trosglwyddo eitem 12 (Strategaeth Fflyd 2011-14) i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.**

**5. STRATEGAETH GYMUNEDOL**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Ystyriwyd Adroddiad Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd Dyfed Edwards mewn ymateb i gwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi. Diolchwyd am yr adroddiad, a dymunir tynnu sylw'r Arweinydd at y canlynol:

<u>Argymhellion</u>

1 A wnewch chi sicrhau y rhoddir ystyriaeth benodol i gynnal y gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â threfol pan yn cynllunio gwasanaethau ar y cyd ar draws y Sir.
2. A wnewch chi ystyried tynnu allan o brosiectau cydweithio lle mae'n amlwg nad oes ymrwymiad priodol gan bartneriaid eraill. Yn enwedig, lle bo costau sylweddol i'r Cyngor o geisio cynnal y bartneriaeth.
3. Fedrwch chi roi sylw i'r angen i gael mesuryddion sy'n rhoi pwyslais ar effaith ar ein trigolion.
4. Yn gyffredinol, byddem yn croesawu atodiadau sy'n tystiolaethu sylwadau yn eich adroddiadau yn y dyfodol.

<u>Gwybodaeth</u>

1. A wnewch chi rannu'r rhestr o bob aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am bob un o'r partneriaethau a chynlluniau cydweithio gyda holl aelodau'r Cyngor?
2. A wnewch chi gyflenwi'r wybodaeth lawn am arbediad ariannol rhesymoli partneriaethau a'r Prosiect Ôl-troed Carbon i aelodau'r Pwyllgor?
3. A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth fanwl ganlynol dros y cyfnod 2006 at y presennol:

- Nifer Tai Fforddiadwy (TFF) a gafodd ganiatâd cynllunio
- Nifer TFF a godwyd gan Gymdeithasau Tai
- Nifer TFF a godwyd gan gwmnïau preifat
- Nifer TFF ar rent
- Nifer digartrefedd
- Nifer ar Restr Aros am dai

4. A wnewch chi ddarparu gwybodaeth ar y nifer o swyddi a grëwyd yn dilyn gweithgaredd y prosiectau a nodir gennych.

**6. STRATEGAETH ARBEDION**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Ystyriwyd Adroddiad yr Aelod Cabinet (Adnoddau) – y Cynghorydd Peredur Jenkins mewn ymateb i gwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi. Diolchwyd am yr adroddiad, a dymunir tynnu sylw'r Aelod Cabinet at y canlynol:

<u>Argymhellion</u>

1 Os yw'n fwriad gennych ofyn i ysgolion ddarganfod arbedion effeithlonrwydd, a wnewch chi ystyried rhoi targed mwy heriol i'r ysgolion hynny sy'n dal balansau uchel yn hytrach na chyflwyno targed unffurf i bawb.

Gwybodaeth

1. A wnewch chi ddarparu adroddiadau pellach i'r pwyllgor hwn ar gynnydd y 62 cynllun fydd yn cael eu gwireddu yn 2013/4.
2. A wnewch chi ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r niferoedd staff sy'n ymddeol ac yn cael eu hail-gyflogi gan y Cyngor o dan het wahanol.
3. A wnewch chi adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ymhellach ymlaen yn y flwyddyn ariannol ynglŷn ag unrhyw gynnydd neu ddatblygiadau pellach.

Llongyfarchwyd yr holl adrannau ar yr asedion a gyflawnwyd hyd yma.

**7. MEDDYLFRYD SYSTEMAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu yn gofyn i'r aelodau ystyried a ddymunent sefydlu Ymchwiliad Craffu i'r maes hwn ai peidio.

Gan gyfeirio at yr awgrym yn y Crynodeb Sgopio bod aelodau'r Ymchwiliad yn ymweld â Chynghorau Castell Nedd Port Talbot a Blaenau Gwent, gofynnwyd i'r Ymchwiliad ystyried, yn y cyd-destun ariannol, a fyddai'n fwy priodol gofyn i swyddog o'r ddau gyngor ddod i fyny i Wynedd yn hytrach na bod holl aelodau'r Ymchwiliad yn teithio i lawr i'r De.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Sefydlu Ymchwiliad Craffu a phenodi'r Cynghorwyr Lesley Day, Trevor Edwards, Jason Humphreys, June Marshall, Dafydd Meurig a Gareth Thomas yn aelodau o'r Ymchwiliad.**

**(b) Bod Cadeirydd yr Ymchwiliad yn adrodd yn ôl i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor hwn ar unrhyw ddatblygiadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.20pm